

Cynllun Hyfforddi Cyngor Cymuned Llanycil.

Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol o dan adran 67 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i wneud cynllun sy'n nodi'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud i fynd i'r afael ag anghenion hyfforddi ei gynghorwyr a'i chlerc.

Pwrpas y cynllun hyfforddi yw sicrhau bod cynghorwyr a'r clerc ar y cyd yn meddu ar y wybodaeth a'r ymwybyddiaeth sydd eu hangen er mwyn i'r Cyngor weithredu'n effeithiol. Nid oes angen i bob cynghorydd a'r clerc fod wedi derbyn yr un hyfforddiant a datblygu'r un arbenigedd.

Rhaid rhoi cynllun hyfforddi newydd ar waith ar ôl pob etholiad cyffredin o gynghorwyr cymuned i adlewyrchu'r anghenion hyfforddi sy'n deillio o newidiadau i aelodaeth y Cyngor ac i ddarparu ar gyfer ethol cynghorwyr newydd. Dyma gynllun hyfforddi cyntaf y Cyngor ond o hyn ymlaen bydd yn adolygu'r cynllun o bryd i'w gilydd i'w gadw'n gyfredol ac yn berthnasol.

Gwnaed asesiad hyfforddiant cychwynnol yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor ym mis Mai 2022. Ystyriwyd sgiliau hanfodol sydd eu hangen wrth bennu blaenoriaethau hyfforddi ar gyfer cynghorwyr, ac a yw'r cyngor yn teimlo bod digon o sylw a dyfnder ar draws y cyngor er mwyn iddo weithredu'n effeithiol wrth symud ymlaen o fis Mai 2022.

O ran Clerc y Cyngor, mae'r clerc presennol wedi gweithio i'r Cyngor ers 2004. Yn ystod y cyfnod yma mae wedi mynychu nifer o gyrsiau hyfforddiant ac wedi sicrhau bod y Cyngor yn cyfarfod gofynion yr archwiliadau blynyddol a gofynion pob dyletswydd statudol. Mae gan y clerc radd mewn business a chymwysterau cyfrifeg. Mae hefyd yn gyfarwyddwr ariannol yn ei phrif swydd o ddydd i ddydd ac o ganlyniad, mae'r cyngor yn hyderus y bydd gwybodaeth ac arbenigedd y clerc i arwain a chefnogi aelodau ar hyn o bryd.

O ran y cynghorwyr eu hunain, y meysydd craidd i fynd i'r afael â hwy er mwyn sicrhau bod gan y cyngor sgiliau a dealltwriaeth ddigono ydi:

Sefydlu sylfaenol i gynghorwyr;

Y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru.

Rheolaeth ariannol a llywodraethu.

Yn ogystal â'r meysydd hyn, bydd y cyngor am ystyried a oes heriau a chyfleoedd newydd y gallai ddymuno eu harchwilio e.e. sgiliau cadeirio ar gais cadeiryddion newydd os bydd gofyn. Os felly, efallai y bydd yn penderfynu bod sgiliau newydd i gynghorwyr a staff eu hennill yn y dyfodol o gyhoeddi'r cynllun hyfforddi cyntaf hwn.

Mae'r cyngor wedi cymeradwyo cyhoeddi'r cynllun hyfforddi hwn ar ôl nodi ei ofynion cychwynnol i symud y cyngor yn ei flaen yn dilyn yr etholiadau cyffredin llywodraeth leol ar 5 Mai 2022. Mae'r cynllun yn giplun o'r gofynion hyfforddi ar hyn o bryd a bydd yn cael ei ailystyried a chael eu diweddarau'n gyfnodol dros y pum mlynedd nesaf ac yn arwain at y set nesaf o etholiadau cyffredin llywodraeth leol sydd wedi'u cynllunio ar gyfer Mai 2027.

O ran cynlluniau'r cyngor, nodir y rhain yn y tabl canlynol:

PWY	BE	SUT	PRYD	NODIADAU
Cynghorwyr yn dychwelyd	Cyflwyniad sylfaenol i'r cyngor	Hyfforddiant anffurfiol gan y clerc	Mai 2022	
Cynghorwyr newydd	Cyflwyniad sylfaenol i'r cyngor	Hyfforddiant anffurfiol gan y clerc	Pan fydd aelod newydd yn ymuno a'r cyngor	Pecyn gwybodaeth yn cael ei gyflwyno i unrhyw gynghorydd newydd.
Cynghorwyr i gyd	Hyfforddiant Cod Ymddygiad i Aelodau.	Hyfforddiant anffurfiol gan y clerc	Mai 2022 a pan fydd aelod newydd yn	Pecyn gwybodaeth yn cael ei gyflwyno i unrhyw gynghorydd newydd.

			ymuno a'r cyngor	
Clerc a'r swyddog ariannol	Datblygiad proffesiynol parhaus	Hyfforddiant swyddogol e.e. Un Llais Cymru neu SLCC	Dim angen ar hyn o bryd ond bydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd wrth ystyried unrhyw ofynion statudol newydd neu anghenion personol y clerc.	Mae gan y clerc radd mewn business a chymwysterau cyfrifeg. Mae hefyd yn gyfarwyddwr ariannol yn ei phrif swydd o ddydd i ddydd. Mae'r Clerc hefyd wedi cwblhau'r cyrsiau hyfforddiant canlynol: Seminar Cynllunio Cyngor Gwynedd, Un Llais Cymru: Modiwl 21, Cyllid Llywodraeth Lleol 2017, Modiwl 21 Uwch, 2016 Rheoli Gwybodaeth 2018

Ariannu'r hyfforddiant, bob blwyddyn cyn gosod y gyllideb bydd y clerc yn ystyried anghenion hyfforddi ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol ac yn gwneud argymhellion i'r Cyngor ynghylch y gyllideb sydd ei hangen i gyflawni ymrwymadau'r cyngor i hyfforddi a datblygu'r cynghorwyr a'r clerc. Wrth ystyried yr angenheion hyfforddiant dylid gynnwys y clerc ac hyfforddiant ar gyfer oleiaf dau gynghorydd bob blwyddyn. Mae'n bosibl y bydd cynlluniau bwrsariaeth ar gael i dalu'r costau hyn.

Hyfforddiant i weithwyr mwy nag un cyngor cymuned, gan fod y clerc presennol hefyd yn glerc i Gyngor Cymuned Llandderfel, bydd y ddau gyngor yn cytuno ar y cyd pa hyfforddiant fydd ei angen ar y clerc a sut y gellir rhannu'r costau a pha gyngor fydd yn gwneud cais am unrhyw fwrsariau. Bydd y cynghorau yn talu cyflog i'r clerc am eu hamser yn teithio i a mynychu'r cyrsiau ac unrhyw gostau teithio perthnasol.

Mabwysiadwyd yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Medi 2022:-

Arwyddwyd gan y Cadeirydd Dyddiedig

Adolygwyd gan y Cadeirydd Dyddiedig

Adolygwyd gan y Cadeirydd Dyddiedig

Adolygwyd gan y Cadeirydd Dyddiedig

Adolygwyd gan y Cadeirydd Dyddiedig